Datganiad polisi gorfodi

Comisiwn Iechyd a Diogelwch

Cyflwyniad

Amcanion y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) yw diogelu iechyd, diogelwch a lles pobl wrth eu gwaith, a diogelu eraill, yn bennaf aelodau'r cyhoedd, a allai wynebu risg o ganlyniad i'r ffordd y caiff gwaith ei wneud.

Mae swyddogaethau statudol HSC yn cynnwys cynnig cyfreithiau a safonau newydd neu ddiweddaru cyfreithiau a safonau, cynnal gwaith ymchwil, a darparu gwybodaeth a chyngor. Caiff HSC gyngor a chymorth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sydd â chyfrifoldebau statudol dros wneud trefniadau digonol ar gyfer gorfodi'r gyfraith iechyd a diogelwch mewn perthynas â gweithgareddau penodol sy'n ymwneud â gwaith. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gorfodi cyfraith iechyd a diogelwch mewn gweithleoedd a ddyrennir iddynt - gan gynnwys swyddfeydd, siopau canolfannau dosbarthu manwerthu a chyfanwerthu, mannau hamdden, gwestai a mannau arlwyo.

Mae'r Datganiad Polisi Gorfodi hwn yn nodi egwyddorion ac ymagwedd gyffredinol y disgwylia HSC i awdurdodau gorfodi iechyd a diogelwch (HSE ac awdurdodau lleol yn bennaf) eu dilyn. Mae'n ofynnol i holl staff awdurdodau lleol a HSE sy'n gwneud penderfyniadau gorfodi ddilyn Datganiad Polisi Gorfodi HSC. Yn gyffredinol, arolygwyr fydd y staff hynny, felly mae'r polisi hwn yn cyfeirio at arolygwyr er mwyn bod yn syml.

Mae'r defnydd priodol o bwerau gorfodi, gan gynnwys erlyn, yn bwysig, er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith yn ogystal â sicrhau bod y rhai sydd â dyletswyddau o dan y gyfraith yn cael eu dwyn i gyfrif am fethu â diogelu iechyd, diogelwch a lles.

Wrth ddyrannu adnoddau, rhaid i awdurdodau gorfodi roi ystyriaeth i'r egwyddorion a nodir isod, yr amcanion a gyhoeddir yng nghynlluniau strategol HSC a Phwyllgor Cyswllt Gorfodi HSE/Awdurdodau Lleol (HELA), a'r angen i gynnal cydbwysedd rhwng gorfodi a gweithgareddau eraill, gan gynnwys archwilio.

Datganiad Polisi y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ar Orfodi

Mae testun llawn y datganiad fel a ganlyn:

Diben gorfodi a'r dull o wneud hynny

1 Diben sylfaenol yr awdurdodau gorfodi yw sicrhau bod deiliad dyletswyddau yn rheoli risgiau'n effeithiol, ac felly'n atal niwed. Mae gan y term 'gorfodi' ystyr eang ac mae'n berthnasol i bob trafodaeth rhwng awdurdodau gorfodi a'r rhai hynny y mae'r gyfraith yn rhoi dyletswydd arnynt (cyflogwyr, pobl hunan-gyflogedig, cyflogeion ac eraill).

2 Diben gorfodi yw:

- sicrhau bod deiliaid dyletswyddau yn cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â risgiau difrifol;
- hybu a chyflawni cydymffurfiaeth barhaus â'r gyfraith;
- sicrhau bod deiliaid dyletswyddau sy'n torri gofynion iechyd a diogelwch, a chyfarwyddwyr neu reolwyr sy'n methu yn eu cyfrifoldebau, yn cael eu dwyn i gyfrif, a allai gynnwys dwyn troseddwyr honedig gerbron y llysoedd yng Nghymru a Lloegr, neu argymell erlyn yn yr Alban, o dan yr amgylchiadau a nodir yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

Mae gorfodi yn wahanol i geisiadau sifil am iawndal ac nid ymgymerir â hyn ym mhob achos lle y gellir mynd ar drywydd ceisiadau sifil, nac i gynorthwyo ceisiadau o'r fath.

3 Mae gan awdurdodau gorfodi ystod o ddulliau y gallant eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth gadarn â'r gyfraith ac i sicrhau ymateb cymesur i droseddau. Gall arolygwyr gynnig gwybodaeth a chyngor i ddeiliaid dyletswyddau, yn bersonol neu'n ysgrifenedig. Gallai hyn gynnwys rhybuddio deiliad dyletswydd nad yw, ym marn yr arolygydd, yn cydymffurfio â'r gyfraith. Pan fydd yn briodol, gall arolygwyr hefyd gyflwyno hysbysiadau gwella a gwahardd, tynnu cymeradwyaeth yn ôl, amrywio amodau neu eithriadau trwyddedau, cyflwyno rhybuddion ffurfiol[1] (Cymru a Lloegr yn unig), a gallant erlyn (neu adrodd i'r Procurator Fiscal gyda bwriad i erlyn yn yr Alban).

4 Rhoi gwybodaeth a chyngor, cyhoeddi hysbysiadau gwella neu wahardd a thynnu trwyddedau yn ôl neu eu hamrywio neu awdurdodiadau eraill yw'r prif ddulliau a ddefnyddia arolygwyr i gyflawni'r nod gyffredinol o fynd i'r afael â risgiau difrifol, sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith iechyd a diogelwch ac atal niwed. Bydd hysbysiad gwahardd yn dod â gwaith i ben er mwyn atal anaf personol difrifol. Dylai gwybodaeth am hysbysiadau gwella a gwahardd gael ei rhyddhau i'r cyhoedd.

5 Mae pob hysbysiad gwella yn cynnwys datganiad bod trosedd wedi ei chyflawni ym marn yr arolygydd. Gellir defnyddio hysbysiadau gwella a gwahardd, a chyngor ysgrifenedig, mewn achosion llys.

6 Mae rhybuddion ffurfiol ac erlyniadau yn ddulliau pwysig o ddwyn deiliaid dyletswyddau i gyfrif am dor cyfraith honedig. Pan fydd yn briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn, dylai awdurdodau gorfodi ddefnyddio un o'r mesurau hyn yn ogystal â chyhoeddi hysbysiad gwella neu wahardd.

[1] Rhybudd ffurfiol yw datganiad gan arolygydd, a gaiff ei dderbyn yn ysgrifenedig gan ddeiliad y ddyletswydd, bod y deiliad dyletswydd wedi cyflawni trosedd lle mae posibilrwydd realistig y caiff ei gollfarnu. Dim ond pan fydd yn bosibl dwyn erlyniad gwirioneddol y dylid defnyddio rhybudd ffurfiol. Mae 'rhybuddion ffurfiol' yn gwbl wahanol i rybudd a roddir o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol gan arolygydd cyn holi drwgweithredwr am drosedd honedig. Dylai awdurdodau gorfodi ystyried canllawiau cyfredol y Swyddfa Gartref wrth ystyried rhoi rhybudd ffurfiol.

7 Mae'n hanfodol ymchwilio i'r amgylchiadau sy'n codi yn ystod archwiliadau neu'n dilyn digwyddiadau neu gwynion cyn cymryd camau gorfodi. Wrth benderfynu pa adnoddau i'w neilltuo ar gyfer yr ymchwiliadau hyn, dylai awdurdodau gorfodi roi ystyriaeth i egwyddorion gorfodi a nodir yn y datganiad hwn a'r amcanion a gyhoeddwyd yng nghynlluniau strategol HSC a HELA. Yn arbennig, wrth ddyrannu adnoddau, rhaid i awdurdodau gorfodi greu cydbwysedd rhwng ymchwiliadau a gweithgareddau ataliol yn bennaf.

8 Weithiau, mae'r gyfraith yn benodol - noda'n fanwl yr hyn y dylid ei wneud. Fodd bynnag, mae sawl agwedd ar gyfraith fodern iechyd a diogelwch yn ymwneud â gosod targedau - nodi'r hyn y dylid ei gyflawni, ond nid sut y dylid gwneud hynny. Caiff cyngor ar sut i gyflawni'r amcanion ei nodi o fewn Codau Ymarfer Cydnabyddedig (ACOPs) yn aml. Bydd y rhain yn rhoi cyngor ymarferol ar gydymffurfiaeth ac mae iddynt statws cyfreithiol arbennig. Os caiff rhywun ei erlyn am dorri cyfraith iechyd a diogelwch ac nad oeddent wedi dilyn darpariaeth berthnasol ACOP, mae cyfrifoldeb arnynt i ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r gyfraith mewn ffordd arall. Rhoddir cyngor mewn deunydd arweiniad eraill HSC, HSE a HELA sy'n disgrifio arfer da. Nid yw'n orfodol dilyn yr arweiniad hwn, ond mae gwneud hynny yn aml yn ddigon i gydymffurfio â'r gyfraith. Nid yw ACOPs na deunydd arweiniad mewn termau sydd o anghenraid yn addas i bob achos. Wrth ystyried a gydymffurfiwyd â'r gyfraith, bydd angen i arolygwyr ystyried yr ACOPs a'r arweiniad perthnasol, gan ddefnyddio barn synhwyrol ynglŷn â chyrhaeddiad y risgiau a'r ymdrech a roddwyd i geisio eu goresgyn. Dywedir mwy am y materion hyn yn y datganiad hwn.

9 Mae HSC yn disgwyl i awdurdodau gorfodi ddefnyddio disgresiwn wrth benderfynu pryd i gynnal ymchwiliad neu pa gamau gorfodi fyddai'n briodol. Dylai awdurdodau gorfodi nodi'r drefn gwneud penderfyniadau yn ysgrifenedig er mwyn i arolygwyr ei dilyn wrth benderfynu ar gamau gorfodi a dylid sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd. Bydd HSC yn disgwyl i benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol. Mae'r egwyddorion hyn yn unol â'r *Enforcement Concordat* a gytunwyd rhwng y Cabinet, y Swyddfa Gartref a Swyddfa'r Alban (Gweithrediaeth yr Alban bellach) a chymdeithasau awdurdodau lleol.

Egwyddorion gorfodi

10 Cred HSC mewn gweithredu cyfraith iechyd a diogelwch yn gadarn ond yn deg. Dylai hyn gael ei lywio gan egwyddorion *cymesuredd* o ran cymhwyso'r gyfraith a sicrhau cydymffurfiaeth; *cysondeb* ymagwedd; *targedu* camau gorfodi; *tryloywder* ynghylch sut mae'r rheolydd yn gweithredu a'r hyn y gall y rhai a gaiff ei rheoleiddio ei ddisgwyl; ac *atebolrwydd* dros weithredoedd y rheolydd. Dylai'r egwyddorion hyn fod yn berthnasol i orfodi mewn achosion penodol ac i reolaeth awdurdodau gorfodi iechyd a diogelwch dros weithgaredd gorfodi yn gyffredinol.

Cymesuredd

11 Mae cymesuredd yn golygu cysylltu camau gorfodi â'r risgiau.[2] Mae'r rhai a gaiff eu diogelu gan y gyfraith a'r rhai y mae'r gyfraith yn gosod dyletswydd arnynt (deiliaid dyletswyddau) yn disgwyl i gamau a gymerir gan awdurdodau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth neu i ddwyn deiliaid dyletswyddau i gyfrif am ddiffyg cydymffurfio fod yn gymesur ag unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch, neu i ddifrifoldeb unrhyw dor cyfraith, gan gynnwys unrhyw niwed gwirioneddol neu bosibl sy'n deillio o dorri'r gyfraith.

12 Yn ymarferol golyga gweithredu'r egwyddor o gymesuredd y dylai awdurdodau gorfodi gymryd ystyriaeth arbennig o i ba raddau y mae'r deiliad dyletswyddau wedi methu â chyflawni'r hyn a ofynnir gan y gyfraith a maint y risgiau i bobl yn deillio o'r achos o dorri rheolau.

13 Mae rhai dyletswyddau iechyd a diogelwch yn benodol ac absoliwt. Disgwylir i eraill gael eu gweithredu cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Dylai awdurdodau gorfodi ddefnyddio'r egwyddor o gymesuredd mewn perthynas â'r ddau fath o ddyletswydd.

[2] *Yn y polisi hwn diffinnir 'risg' (pan ddefnyddir y term ar ei ben ei hun) yn gyffredinol i gynnwys ffynhonnell o niwed posibl, y tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd a difrifoldeb unrhyw niwed.*

14 Mae penderfynu ar yr hyn sy'n rhesymol ymarferol i reoli risgiau yn gofyn am ddefnyddio barn. Lle y mae'n rhaid i ddeiliaid dyletswyddau reoli risgiau cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, rhaid i awdurdodau gorfodi wrth ystyried camau diogelu gan ddeiliaid dyletswyddau ystyried maint y risg ar yr un llaw ac ar y llaw arall yr aberth, pa un a yw hynny yn nhermau arian, amser neu drafferth sy'n gysylltiedig â'r camau angenrheidiol i atal y risg. Os na ellir dangos bod y ffactorau hyn yn gwbl anghymesur â'i gilydd a bod y risg yn ddinod mewn perthynas â'r costau, rhaid i'r deiliaid dyletswyddau gymryd camau a thalu'r costau angenrheidiol i leihau'r risg.

15 Bydd yr awdurdodau yn disgwyl i arferion da perthnasol gael eu dilyn. Pan na fydd arfer da perthnasol mewn achosion arbennig wedi cael ei sefydlu'n glir, mae cyfraith iechyd a diogelwch i bob pwrpas yn ei gwneud yn ofynnol i'r deiliaid dyletswyddau sefydlu'n benodol arwyddocâd y risgiau i benderfynu pa gamau fydd angen eu cymryd. Y llysoedd, yn y pen draw, fydd yn penderfynu beth sy'n rhesymol ymarferol mewn achosion arbennig.

16 Efallai y bydd rhai risgiau na ellir eu lleihau mor ddifrifol fel na ellir eu caniatáu waeth beth fydd y canlyniadau.

Targedu

17 **Ystyr targedu yw sicrhau y caiff cysylltiadau eu targedu'n bennaf tuag at y rhai y mae eu gweithgareddau yn achosi'r risgiau mwyaf difrifol neu pan fo llai o reolaeth dros beryglon; ac y caiff camau eu canolbwyntio ar y deiliaid dyletswyddau sy'n gyfrifol am y risg ac sydd yn y sefyllfa orau i'w rheoli - pa un a yw hynny'n gyflogwyr, gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr, neu eraill.**

18 Mae HSC yn disgwyl bod gan awdurdodau gorfodi systemau mewn grym ar gyfer penderfynu pa archwiliadau, ymchwiliadau neu gysylltiadau rheoleiddio eraill a ddylai gael blaenoriaeth yn ôl natur a maint y risgiau sy'n codi yn sgîl gweithrediadau deiliaid dyletswydd. Mae gallu rheoli'r deiliad dyletswydd yn bwysig gan y gallai safle â risg isel a gaiff ei reoli'n wael achosi mwy o risg i weithwyr neu'r cyhoedd na safle â risg uchel lle mae mesurau risg priodol a digonol ar waith. Bydd rhai safleoedd â risg uchel iawn yn destun archwiliadau rheolaidd fel y gall awdurdodau gorfodi roi sicrwydd i'r cyhoedd bod risgiau o'r fath yn cael eu rheoli'n ddigonol.

19 Caiff unrhyw gamau gorfodi eu cyfeirio yn erbyn deiliaid dyletswyddau sy'n gyfrifol am dorri'r rheolau. Gallai hyn fod yn gyflogwyr mewn perthynas â gweithwyr neu eraill sy'n wynebu risgiau; pobl hunan-gyflogedig; perchnogion eiddo; cyflenwyr offer; dylunwyr neu gleientiaid prosiectau; neu gyflogeion eu hunain. Pan fydd cyfrifoldebau gan sawl deiliad dyletswydd, gall awdurdodau gorfodi gymryd camau yn erbyn mwy nag un pan fydd hynny'n briodol yn unol â'r polisi hwn.

20 Pan fydd arolygwyr yn cyflwyno hysbysiadau gwella neu wahardd; yn tynnu cymeradwyaeth yn ôl; yn amrywio amodau trwydded neu eithriadau; yn cyhoeddi rhybudd ffurfiol; neu'n erlyn; dylai awdurdodau gorfodi sicrhau y caiff uwch swyddog y deiliad dyletswydd dan sylw, ar lefel bwrdd, ei hysbysu hefyd.

Cysondeb

21 **Nid yw cysondeb ymagwedd yn golygu unffurfiaeth. Mae'n golygu cymryd ymagwedd debyg tuag at amgylchiadau tebyg er mwyn cyflawni dibenion tebyg.**

22 Bydd deiliaid dyletswydd sy'n rheoli risgiau tebyg yn disgwyl ymagwedd gyson gan awdurdodau gorfodi o ran y cyngor a roddir; y defnydd o hysbysiadau gorfodi, cymeradwyaeth ac ati; penderfyniadau i erlyn; ac ymateb i ddigwyddiadau.

23 Mae HSC yn cydnabod nad yw cysondeb yn fater syml yn ymarferol. Bydd arolygwyr HSE ac awdurdodau lleol yn wynebu amrywiaethau lu gan gynnwys maint y risg, agwedd a gallu rheolwyr, hanes digwyddiadau neu achosion o dorri rheolau yn ymwneud â'r deiliad dyletswydd, camau gweithredu blaenorol, difrifoldeb unrhyw achosion o dorri rheolau, gan gynnwys niwed posibl neu wirioneddol sy'n deillio o dorri'r gyfraith. Mae penderfyniadau ar gamau gorfodi yn agored i ddisgresiwn, ac yn gofyn i'r gorfodwr arfer ei farn. Dylai fod gan bob awdurdod gorfodi drefniadau ar waith i hyrwyddo cysondeb wrth ymarfer disgresiwn, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer cyd-drafod ag awdurdodau gorfodi eraill.

Tryloywder

24 **Mae tryloywder yn golygu helpu deiliaid dyletswydd i ddeall beth a ddisgwylir ganddynt a beth y dylent ei ddisgwyl gan yr awdurdodau gorfodi. Mae hefyd yn golygu egluro i ddeiliaid dyletswydd yr hyn y dylent ei wneud, pan fydd hyn yn berthnasol, ond hefyd yr hyn na ddylent ei wneud. Golyga hynny wahaniaethu rhwng gofynion statudol a chyngor neu arweiniad ar yr hyn sy'n ddymunol ond nad yw'n orfodol.**

25 Mae tryloywder hefyd yn golygu y dylai'r awdurdodau gorfodi feddu ar drefniadau i hysbysu cyflogeion, eu cynrychiolwyr a dioddefwyr neu eu teuluoedd. Rhaid i'r trefniadau hyn ystyried cyfyngiadau a gofynion cyfreithiol.

26 Mae'r datganiad hwn yn nodi'r fframwaith polisi cyffredinol y dylai awdurdodau gorfodi ei ddilyn. Rhaid i ddeiliaid dyletswydd, cyflogeion, eu cynrychiolwyr ac eraill hefyd wybod beth i'w ddisgwyl pan fydd arolygwyr yn galw a pha hawliau cwyno sydd ganddynt. Mae'n ofynnol i bob arolygydd awdurdod gorfodi roi taflen HSC *Beth i'w ddisgwyl pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn galw* i bobl y byddant yn ymweld â hwy. Mae hon yn egluro'r hyn y gall cyflogwyr a chyflogeion a'u cynrychiolwyr ei ddisgwyl pan fydd arolygwyr iechyd a diogelwch yn ymweld â gweithle. Yn arbennig:

- pan fydd arolygwyr yn cynnig gwybodaeth neu gyngor i ddeiliaid dyletswydd, naill ai wyneb yn wyneb neu'n ysgrifenedig, gan gynnwys unrhyw rybudd, bydd yr arolygwr yn dweud wrth y deiliad dyletswydd beth i'w wneud i gydymffurfio â'r gyfraith, ac yn egluro pam. Os gofynnir iddynt, bydd yr arolygwyr yn ysgrifennu i gadarnhau unrhyw gyngor, ac i wahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol a chyngor arfer gorau;

- o ran hysbysiadau gwella, bydd yr arolygydd yn trafod yr hysbysiad ac, os yn bosibl, yn datrys unrhyw wahaniaethau cyn ei gyflwyno. Bydd yr hysbysiad yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud, pam bod angen ei wneud ac erbyn pryd, a bod achos o dor cyfraith wedi digwydd ym marn yr arolygydd;

- mewn achos o hysbysiad gwahardd, bydd yr hysbysiad yn egluro pam bod angen y gwaharddiad.

Yn ogystal, mewn ymateb i *Service First* mae HSE wedi argraffu dau gyhoeddiad, *Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Gweithio gyda chyflogwyr a Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chi,* sy'n adlewyrchu egwyddorion y *Concordat Gorfodi.*

Atebolrwydd

27 **Mae Rheolyddion yn atebol i'r cyhoedd am eu gweithgareddau. Golyga hyn bod angen polisïau a safonau (megis y pedair egwyddor gorfodi uchod) ar awdurdodau gorfodi y gallant eu barnu yn eu herbyn, a dull effeithiol a hygyrch o fynd i'r afael â sylwadau ac ymdrin â chwynion.**

28 Caiff gweithdrefnau HSE ar gyfer mynd i'r afael â sylwadau ac ymdrin â chwynion eu nodi yn y cyhoeddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 26. Yn benodol, maent yn:

- disgrifio'r weithdrefn gwyno yn achos penderfyniadau gan swyddogion, neu os na ddilynwyd gweithdrefnau; ac
- yn egluro'r hawl i apelio i Dribiwnlys Cyflogaeth mewn achosion o hysbysiadau statudol.

29 Mae gweithdrefnau cwynion eu hunain gan awdurdodau lleol - gellir cael manylion gan awdurdodau unigol.

Ymchwilio

30 Fel gydag erlyniadau, disgwylia HSC i awdurdodau gorfodi ddefnyddio disgresiwn wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i ddigwyddiadau, achosion o salwch neu gwynion. Caiff targedau dangosol sy'n gysylltiedig â lefelau ymchwilio gan HSE eu nodi fel arfer yng Nghynllun Strategol HSC, a gaiff ei gymeradwyo gan y Llywodraeth. Adlewyrchir blaenoriaethau HSC hefyd o fewn Strategaeth HELA a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i dargedu eu gweithgareddau ac adnoddau, drwy eu Cynlluniau Gwasanaeth Adrannol.

31 Cynhelir ymchwiliadau er mwyn penderfynu ar:

- achosion;
- p'un a gymerwyd camau neu a ddylid cymryd camau i atal hyn rhag digwydd eto ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith;
- y gwersi sydd i'w dysgu a dylanwadu ar y gyfraith ac arweiniad;
- pa ymateb sy'n briodol i dor cyfraith.

Er mwyn cynnal ymateb cymesur, caiff y rhan fwyaf o adnoddau sydd ar gael i archwilio digwyddiadau eu hymroi i'r amgylchiadau mwy difrifol. Mae Cynllun Strategol HSC yn cydnabod nad yw'n bosibl nac yn angenrheidiol at ddibenion y Ddeddf i ymchwilio i bob achos o anghydymffurfio â'r gyfraith a gaiff ei ddatgelu wrth gynnal archwiliad ataliol, neu wrth ymchwilio i ddigwyddiadau a gaiff eu cofnodi.

32 Dylai'r awdurdodau gorfodi gynnal ymchwiliad i safle pan gofnodir achos o farwolaeth yn gysylltiedig â'r gwaith, os nad yw'n achos o oedolyn yn tresmasu neu hunanladdiad ar y rheilffordd[3] neu bod rhesymau penodol eraill dros beidio â gwneud hynny, a dylid cofnodi'r rhesymau hynny mewn achosion o'r fath.

33 Wrth benderfynu pa gwynion neu adroddiadau am anaf neu salwch galwedigaethol y dylid ymchwilio iddynt ac wrth benderfynu pa lefel o adnoddau i'w defnyddio, dylai'r awdurdodau gorfodi gymryd y ffactorau canlynol i ystyriaeth:

- difrifoldeb a maint y niwed posibl neu'r niwed gwirioneddol;
- difrifoldeb unrhyw dor cyfraith;
- gwybodaeth am berfformiad iechyd a diogelwch y deiliad dyletswydd yn y gorffennol;
- y blaenoriaethau gorfodi;
- ymarferoldeb cyflawni canlyniadau;
- perthnasedd ehangach y digwyddiad, gan gynnwys pryder cyhoeddus difrifol.

[3] *Pan fydd yr heddlu bob amser yn ymchwilio ac yn cynghori HSE os yw'n ymwneud â materion gweithredu'r rheilffordd.*

Erlyn

Cymru a Lloegr

34 Yng Nghymru a Lloegr, yr awdurdodau gorfodi fydd yn gwneud y penderfyniad i ddwyn achos llys. Rhaid i awdurdodau gorfodi ddefnyddio disgresiwn wrth benderfynu erlyn ai peidio.

35 Yng Nghymru a Lloegr, dylid ystyried y prawf tystiolaeth a'r ffactorau lles y cyhoedd perthnasol a nodwyd gan Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron cyn penderfynu erlyn. Ni ellir cynnal erlyniad heb i'r erlynydd ganfod bod digon o dystiolaeth ar gyfer posibilrwydd gwirioneddol o gollfarn, ac yn penderfynu y byddai er lles y cyhoedd i erlyn.

36 Er mai prif ddiben awdurdodau gorfodi yw sicrhau bod deiliaid dyletswyddau yn rheoli risgiau yn effeithiol, ac felly atal niwed, mae erlyn yn rhan hanfodol o orfodi. Pan fydd awdurdod gorfodi wedi casglu digon o dystiolaeth yn ystod ymchwiliad sy'n gwneud collfarn yn obaith realistig, ac wedi penderfynu, yn unol â'r polisi hwn ac wrth ystyried Cod Erlynwyr y Goron, ei bod er lles y cyhoedd i erlyn, bydd HSC yn disgwyl i erlyniad gael ei gynnal. Pan fydd amgylchiadau yn caniatáu a bod tystiolaeth ar gael i gefnogi achos, gall awdurdodau gorfodi erlyn heb rybudd blaenorol neu heb orfod troi at sancsiynau amgen.

Yr Alban

37 Yn yr Alban, y Procurator Fiscal fydd yn penderfynu a ddylid cynnal erlyniad. Gallai hyn fod ar sail argymhellion gan awdurdod gorfodi; er y gall y Procurator Fiscal ymchwilio i'r amgylchiadau a chychwyn gweithrediadau yn annibynnol ar awdurdod gorfodi. Rhaid i awdurdodau gorfodi ddefnyddio disgresiwn wrth benderfynu adrodd i'r Procurator Fiscal gyda'r bwriad o erlyn ai peidio. Mae Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procurator Fiscal yn cymeradwyo'r Datganiad hwn gan HSC, ac yn cydnabod y dylai camau sy'n deillio o gyflwyno adroddiadau o droseddau gan awdurdodau gorfodi adlewyrchu'r ymagwedd a nodir yma.

38 Yn yr Alban, cyn y gellir cychwyn erlyniadau, bydd angen i'r Procurator Fiscal gael ei fodloni bod digon o dystiolaeth ac y cynhelir erlyniad er lles y cyhoedd. Yn yr Alban, felly, penderfyniad yr erlynydd yn hytrach na'r awdurdod gorfodi yw dwyn achos, er y caiff barn yr awdurdod gorfodi ei ystyried.

39 Yn amodol ar yr uchod, disgwylia HSC, er lles y cyhoedd, i awdurdodau gorfodi erlyn fel arfer, neu argymell erlyn, pan fydd un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn dilyn ymchwiliad neu gysylltiad rheolaethol arall. Pan fydd:

- marwolaeth o ganlyniad i dorri'r ddeddfwriaeth;[4]
- difrifoldeb y drosedd honedig, ynghyd â difrifoldeb unrhyw niwed gwirioneddol neu bosibl, neu gofnod cyffredinol ac ymagwedd y troseddwr yn mynnu hynny;
- esgeulustod difater o ofynion iechyd a diogelwch wedi digwydd;
- achosion rheolaidd o dorri rheolau gan greu risg sylweddol, neu ddiffyg cydymffurfio parhaus neu sylweddol;
- gwaith wedi ei gynnal heb gydymffurfio neu ddiffyg cydymffurfio difrifol â thrwydded briodol neu achos diogelwch;
- safon deiliad dyletswydd o reoli iechyd a diogelwch yn llawer is na'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith iechyd a diogelwch a'i fod yn creu risg sylweddol;
- diffyg cydymffurfio â hysbysiad gwella neu wahardd, neu pan fydd tor-rheol rheolaidd a fu'n destun rhybudd ffurfiol;
- gwybodaeth ffug wedi ei rhoi yn fwriadol; neu bod bwriad i dwyllo, mewn perthynas â mater sy'n creu risg sylweddol;
- arolygwyr wedi cael eu rhwystro'n fwriadol i gynnal eu dyletswyddau'n gyfreithiol.

Pan ymosodir ar arolygwyr, bydd awdurdodau gorfodi yn galw am gymorth yr heddlu, gyda'r bwriad o erlyn troseddwyr.

[4] *Mae canllawiau dedfrydu iechyd a diogelwch yn ystyried marwolaeth o ganlyniad i weithred droseddol fel nodwedd waethygol o'r drosedd. Ystyria HSC y dylai achosion o'r fath gael eu dwyn gerbron y llys fel arfer, os oes tystiolaeth ddigonol. Fodd bynnag, bydd rhai achlysuron pan na fydd angen erlyn er lles y cyhoedd, yn dibynnu ar natur y tor-rheol ac amgylchiadau perthnasol y farwolaeth.*

40 Er lles y cyhoedd, bydd HSC hefyd yn disgwyl i awdurdodau gorfodi ystyried erlyn, neu ystyried argymell erlyn, pan fydd un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn dilyn ymchwiliad neu gyswllt rheoleiddio:

- os yw'n briodol o dan yr amgylchiadau fel ffordd o dynnu sylw cyffredinol at yr angen i gydymffurfio â'r gyfraith a chynnal y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac y gallai collfarniad atal eraill rhag methu â chydymffurfio â'r gyfraith mewn modd tebyg;

- os bydd tor-rheol sy'n achosi risg sylweddol wedi parhau er gwaethaf rhybuddion perthnasol gan gyflogeion, neu eu cynrychiolwyr, neu gan eraill a gaiff eu heffeithio gan y gwaith.

Erlyn unigolion

41 Yn unol â'r uchod, dylai awdurdodau gorfodi nodi ac erlyn neu argymell erlyn unigolion os ydynt o'r farn y gellir cyfiawnhau erlyn. Yn arbennig, dylent ystyried y gadwyn reoli a'r rôl a gaiff ei chwarae gan gyfarwyddwyr a rheolwyr unigol, a dylid cymryd camau yn eu herbyn pan fydd archwiliad neu ymchwiliad yn dangos bod trosedd wedi cael ei chyflawni gyda'u caniatâd neu eu cydsyniad hwy neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar eu rhan hwy a phan fydd yn briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn. Pan fo'n briodol, dylai awdurdodau gorfodi geisio gwahardd cyfarwyddwyr o dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986.

Cyhoeddusrwydd

42 Dylai awdurdodau gorfodi yng Nghymru a Lloegr wneud trefniadau'n flynyddol i gyhoeddi enwau yr holl gwmnïau ac unigolion a gollfarnwyd o dorri'r gyfraith iechyd a diogelwch yn ystod y 12 mis blaenorol. Dylent hefyd gael trefniadau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am y collfarnau hyn a hysbysiadau gwella a gwahardd a gyhoeddwyd ganddynt.

43 Dylai awdurdodau gorfodi yng Nghymru a Lloegr hefyd ystyried ym mhob achos dynnu sylw'r cyfryngau at wybodaeth ffeithiol am gyhuddiadau a gafodd eu dwyn gerbron y llysoedd, ond rhaid bod yn ofalus iawn i osgoi unrhyw gyhoeddusrwydd a allai andwyo achos llys teg. Dylent hefyd ystyried cyhoeddi unrhyw gollfarn a allai fod o help i dynnu sylw at yr angen i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, neu

rwystro unrhyw un a gaiff ei demtio i anwybyddu ei ddyletswydd o dan gyfraith iechyd a diogelwch. Yn yr Alban, mater i Swyddfa'r Goron yw penderfyniadau yn ymwneud â chyhoeddusrwydd erlyniadau.

Camau gan y llysoedd

44 Mae cyfraith iechyd a diogelwch yn rhoi rhwydd hynt i lysoedd gosbi troseddwyr a rhwystro eraill, gan gynnwys carchar ar gyfer rhai troseddau. Gellir rhoi dirwyon anghyfyngedig gan lysoedd uwch. Bydd HSC yn parhau i geisio codi ymwybyddiaeth y llysoedd o ddifrifoldeb troseddau iechyd a diogelwch a graddau llawn eu pwerau dedfrydu, gan gydnabod hefyd mai'r llysoedd sydd i benderfynu a yw rhywun yn euog ai peidio a pha gosb y dylid ei rhoi os cânt eu collfarnu. Mae rhestr o'r sancsiynau sydd ar gael i'r llysoedd ar hyn o bryd wedi ei hatodi i'r datganiad hwn

45 Yng Nghymru a Lloegr, dylai'r awdurdodau gorfodi, pan fydd yn briodol, dynnu sylw'r llys at yr holl ffactorau sy'n berthnasol i benderfyniad y llys ar ba ddedfryd sy'n berthnasol i'r gollfarn. Mae'r Llys Apêl wedi rhoi arweiniad ar rai o'r ffactorau a ddylai lywio'r llysoedd mewn achosion iechyd a diogelwch (*R v F Howe and Son (Engineers) Ltd* [1999] 2 All ER, a dyfarniadau dilynol). Noda HSC bod yr Arglwydd Ganghellor wedi dweud nad yw unrhyw un a niweidiwyd o ganlyniad i dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch wedi dioddef llai na rhywun yr ymosodwyd arno.

Cynrychioliadau i'r llysoedd

46 Mewn achosion sy'n ddigon difrifol, a phan fydd cyfle, dylai awdurdodau gorfodi yng Nghymru a Lloegr ystyried nodi i'r ynadon bod y drosedd mor ddifrifol fel y gellid ei hanfon am wrandawiad neu i gael ei dedfrydu mewn llys uwch lle y gellir rhoi cosbau uwch. Wrth ystyried pa gynrychioliadau i'w gwneud, dylai awdurdodau gorfodi ystyried arweiniad y Llys Apêl: dywedodd y Llys Apêl 'Yn ein barn ni, dylai ynadon ystyried yn ofalus bob amser cyn derbyn awdurdodaeth mewn achosion iechyd a diogelwch yn y gwaith, lle y gellir dadlau y gallai dirwy fynd y tu hwn i'w hawdurdodaeth hwy neu pan fydd marwolaeth neu niwed difrifol wedi digwydd o ganlyniad i'r drosedd'.

47 Yn yr Alban, dyletswydd y Procuradur Ffisgal fyddai tynnu sylw'r llys at ddifrifoldeb unrhyw drosedd.

Marwolaeth yn y gwaith

48 Pan fydd tor cyfraith wedi arwain at farwolaeth yn gysylltiedig â'r gwaith, rhaid i awdurdodau gorfodi ystyried a fyddai amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau cyhuddiad o ddynladdiad (dynladdiad beius yn yr Alban).

49 Yng Nghymru a Lloegr, er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau ymchwilio ac erlyn eu cydlynu'n fanwl yn dilyn marwolaeth yn gysylltiedig â gwaith, mae HSE, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) wedi cytuno ar ac wedi cyhoeddi *Work-related deaths: A protocol for liaison*. Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi cytuno y dylai awdurdodau lleol gymryd ystyriaeth o'r protocol wrth ymateb i farwolaethau yn gysylltiedig â gwaith.

50 Yr heddlu sy'n gyfrifol am benderfynu dilyn trywydd ymchwiliad i ddynladdiad a ph'un a ddylid cyfeirio achos i Wasanaeth Erlyn y Goron i ystyried cyhuddiadau posibl o ddynladdiad. Yr awdurdodau gorfodi sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau posibl yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Pe bai awdurdodau gorfodi yn dod o hyd i dystiolaeth sy'n awgrymu dynladdiad yn ystod eu hymchwiliad iechyd a diogelwch, dylent ei gyflwyno i'r heddlu. Pe bai'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio â dwyn achos o ddynladdiad, bydd yr awdurdod gorfodi fel arfer yn dwyn erlyniad iechyd a diogelwch yn unol â'r polisi hwn.

51 Yn yr Alban, y Procurator Fiscal sy'n gyfrifol am ymchwilio i farwolaethau sydyn neu amheus. Os na chynhelir erlyniad o dan yr un amgylchiadau, mae'n ofynnol i'r Procurator Fiscal gynnal Ymchwiliad i Ddamwain Angheuol i amgylchiadau marwolaeth sy'n gysylltiedig â damwain yn ymwneud â'r gwaith[5]. Gellir cynnal Ymchwiliad hefyd pan ymddengys bod hynny er lles y cyhoedd ar sail y ffaith bod y farwolaeth yn sydyn, yn amheus neu heb eglurhad, neu pan fydd wedi digwydd mewn amgylchiadau sy'n achosi pryder cyhoeddus difrifol.

[5] *Yn yr achos hwn, damwain yn ystod cyflogaeth, os oedd y sawl a fu farw yn gyflogai, neu tra roeddent yn ymgymryd â'u galwedigaeth os oeddent yn gyflogwr neu'n berson hunan-gyflogedig.*

Cyrff y Goron

52 Rhaid i gyrff y goron gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, ond nid ydynt yn destun gorfodaeth statudol, gan gynnwys erlyniad. Sefydlodd Swyddfa'r Cabinet drefniadau anstatudol ar gyfer gorfodi gofynion iechyd a diogelwch o fewn cyrff y Goron. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi HSE i gyhoeddi hysbysiadau gwella a gwahardd anstatudol, a cheryddu cyrff y Goron mewn amgylchiadau lle, heblaw am freinryddid y Goron, y byddai erlyniad yn cael ei gyfiawnhau. Wrth benderfynu pryd i ymchwilio neu pa fath o gamau gorfodi i'w cymryd, dylai HSE ddilyn yr un ymagwedd, cyn belled â phosibl, ag ar gyfer cyrff eraill, yn unol â'r polisi gorfodi hwn.

Cosbau am Droseddau Iechyd a Diogelwch[6]

Mae ***Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (Y Ddeddf), adran 33 (fel y diwygiwyd)*** yn nodi'r troseddau a'r cosbau uchaf o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella neu wahardd, neu orchymyn llys i unioni (a gyhoeddwyd o dan Y Ddeddf adran 21, 22 a 42 yn y drefn honno):

Uchafswm y llys isaf	£20,000 a/neu 6 mis o garchar
Uchafswm y llys uchaf	Dirwy anghyfyngedig a/neu 2 flynedd o garchar

Torri adrannau 2-6 o'r Ddeddf, sy'n nodi dyletswyddau cyffredinol cyflogwyr, pobl hunan-gyflogedig, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr i ddiogelu iechyd a diogelwch gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan y gwaith:

Uchafswm y llys isaf	£20,000
Uchafswm y llys uchaf	Dirwy anghyfyngedig

Torri rhannau eraill o'r Ddeddf, a thorri 'darpariaethau statudol perthnasol' o dan y Ddeddf, gan gynnwys yr holl reoliadau iechyd a diogelwch. Mae'r rhain yn gosod gofynion cyffredinol a mwy penodol, megis yr angen i gynnal asesiad risg addas a digonol neu ddarparu offer amddiffynnol personol priodol:

Uchafswm y llys isaf	£5,000
Uchafswm y llys uchaf	Dirwy anghyfyngedig

Mynd yn groes i ofynion trwydded neu ddarpariaethau yn ymwneud â ffrwydron. Mae gofynion trwyddedu yn berthnasol i osodiadau niwclear, gwaredu asbestos, a storio a gweithgynhyrchu ffrwydron. Mae peryglon difrifol yn ymwneud â'r rhain i gyd ac mae angen eu rheoli'n gaeth.

Uchafswm y llys isaf	£5,000
Uchafswm y llys uchaf	Dirwy anghyfyngedig a/neu 2 flynedd o garchar

[6] *Fel ar Ionawr 2002. Gall y cosbau hyn newid o bryd i'w gilydd.*

Ar gollfarnu cyfarwyddwyr o droseddau ditiadwy mewn cysylltiad â rheoli cwmni (y cyfan o'r uchod, yn rhinwedd Y Ddeddf adran 36 a 37), gall y llysoedd hefyd wneud gorchymyn gwahardd (Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmniau 1986, adrannau 1 a 2). Mae'r llysoedd wedi arfer y pŵer hwn yn dilyn collfarnau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Bydd arolygwyr iechyd a diogelwch yn tynnu sylw'r llys at y pŵer hwn pa fydd hynny'n briodol.

Uchafswm y llys isaf	5 mlynedd o waharddiad
Uchafswm y llys uchaf	15 mlynedd o waharddiad

Gwybodaeth bellach

Gellir cael copïau pellach o'r daflen hon gan HSE Books neu ar wefan HSE.

Mae HSE wedi darparu Datganiad Ansawdd sy'n egluro sut y mae'n ymateb i Bolisi Gorfodi'r Comisiwn, ac i Gytundeb Gorfodi Swyddfa'r Cabinet ar arfer gorfodi da. Mae Datganiad HSE yn ffurfio rhan o Fframwaith Ansawdd HSE, sy'n nodi sut y bydd HSE yn cwrdd â'i amcanion o fod yn sefydliad o ansawdd. Mae copi o Ddatganiad HSE (*Datganiad o Ansawdd amcan 2, i sicrhau cydymffurfio*) ar gael o Ganolfannau Gwybodaeth HSE (ffoniwch Linell Gwybodaeth HSE i gael manylion eich Canolfan Wybodaeth leol - mae'r manylion ar y clawr ôl).

Gellir cael mwy o wybodaeth am y ffordd y caiff deddfwriaeth iechyd a diogelwch ei gorfodi ac am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn gyffredinol yn y taflenni canlynol sydd ar gael am ddim:

Successful health and safety management HSG65 (Ail argraffiad) HSE Books 1997 ISBN 0 7176 12767

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Gweithio gyda chyflogwyr Taflen HSE35W HSE Books 2000

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chi Taflen HSE34W HSE Books 2000

Beth i'w ddisgwyl pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn galw: Canllaw byr i fusnesau, gweithwyr a'u cynrychiolwyr HSC14W HSE Books 1998

Work-related deaths: A protocol for liaison MISC114 HSE Books 1998

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y cyfeiriadau a restrir yn y cyhoeddiad hwn, ond ni ellir gwarantu y byddant ar gael yn y dyfodol.

Efallai y bydd awdurdodau lleol yn cynhyrchu eu gwybodaeth bellach eu hunain ar weithredu iechyd a diogelwch. Mae cyfeiriad a rhif ffôn eich awdurdod lleol yn eich llyfr ffôn lleol.

Mae cyhoeddiadau HSE sydd am ddim a'r rhai sydd ar werth ar gael drwy'r post o HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk C010 2WA. Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995
Gwefan: www.hsebooks.co.uk
(Mae cyhoeddiadau HSE hefyd ar werth mewn siopau llyfrau.)

Am wybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Llinell Wybodaeth HSE
Ffôn: 08701 545500 Ffacs: 029 20859260
e-bost: hseinformationservices@natbrit.com
neu ysgrifennwch at Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF38 3GG.
Gallwch hefyd ymweld â gwefan HSE ar: www.hse.gov.uk

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim ac eithrio at ddibenion hysbysebu, ardystio neu fasnachol. Mae'r wybodaeth ynddi yn gyfredol ar 01/02.

Dylid cydnabod y ffynhonnell fel HSE 01/02.
Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
HSC15W 01/02 C20